Caerfyrddin o'r wasg. Diweddarwyd y testun gan yr Athro R. Geraint Gruffydd ac fe baratowyd y lluniau gan ysgolhaig Americanaidd Dr Jenny Rowland. Yna yn 1980 ymddangosodd y gwaith mwyaf uchelgeisiol i Huw ei gynhyrchu, sef *Y Gwir Degwch*, detholiad o gerddi serch Iolo Morganwg, a olygwyd gan Tegwyn Jones. Tegwyn hefyd oedd yn gyfrifol am y lluniau trawiadol sy'n addurno'r gyfrol hardd 80 tudalen hon.

Mae hanes argraffu yn sir Aberteifi yn un hir, diddorol ac amrywiol. Yma y sefydlwyd y wasg fasnachol gynharaf yng Nghymru ar gyrion Castell-newydd Emlyn yn 1718. Fe sefydlodd Thomas Johnes wasg breifat bwysig yn Yr Hafod, Cwmystwyth, yn 1803, ac y mae prif drefi'r sir wedi cynnal, ac yn dal i gynnal, y traddodiad ers 1809. Cofiwn fod Gwasg Gomer newydd ddathlu ei chanmlwyddiant. Pan fydd hanes argraffu yng Ngheredigion yn cael ei ysgrifennu'n llawn gallwn fod yn sicr y bydd ynddo le anrhydeddus i weisg Llety Gwyn, Yr Arad Goch a Y Wern fel cynheiliaid y traddodiadau a'r safonau gorau. Dal ati Huw.

(Fe ymddangosodd yr erthygl hon yn ei ffurf wreiddiol yn rhifyn Mehefin 1993 o *Y Tincer*, papur bro Genau'r Glyn, Melindwr, Tirmynach, Trefeurig a'r Borth, a diolchir i'r Golygydd am ganiatâd i'w chyhoeddi yma. — Gol.)

GWASG GWYN
LLETY



*Gwasg yr Arad Goch*
*Aber - ffrwd*
*1974*

GWASG Y WERN
1980

*Argraffnodau Huw Ceiriog.*



*Huw Ceiriog wrthi'n argraffu* Ych yng ngwedd *ar Wasg y Wern yn gynharach eleni.*
*Llun:* Beti Jones.

# CYMDEITHAS BOB OWEN

YN

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU DE POWYS, LLANELWEDD

## 31 GORFFENNAF – 7 AWST 1993

Fel arfer bydd cynrychiolwyr y Gymdeithas yn cael llety yn stondin Siop Lyfrau'r Hen Bost, Blaenau Ffestiniog, ar Faes yr Eisteddfod. Croeso mawr ichi alw heibio i dalu eich tanysgrifiad ac i ddweud beth hoffech chi weld y Gymdeithas yn ei wneud a hefyd i ddweud beth hoffech ei weld yn *Y Casglwr*. Ar yr un pryd bydd cyfle gogoneddus ichi gael bargen ymysg y llyfrau ail-law.

**Ddydd Mawrth, Awst 3ydd**
**am 2.00 o'r gloch yn Y BABELL LÊN**

cyflwynir rhaglen i gofio'r diweddar D. TECWYN LLOYD
a fu'n Gadeirydd y Gymdeithas o'i dechreuad yn 1976 hyd at ei farwolaeth.

## 'DYDD DA LLOYD'

yw teitl y rhaglen ac fe'i lluniwyd gan Aled Lloyd Davies ar ran y Gymdeithas.

Fe'ch gwelwn chi yn Llanelwedd